



Canolfan
Llywodraethiant Cymru

Wales Governance
Centre

Gwariant Cyhoeddus ar y System Gyfiawnder i Gymru

Guto Ifan

Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd
Wales Governance Centre, Cardiff University

MAI 2019

Gwariant Cyhoeddus ar y System Gyfiawnder i Gymru

Guto Ifan

Canolfan Llywodraethiant Cymru
Prifysgol Caerdydd



Rhagair

Amdanom ni

Canolfan ymchwil yw Canolfan Llywodraethiant Cymru sydd yn ffurfio rhan o Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd, gan ymgymryd ag ymchwil arloesol i holl agweddau'r gyfraith, gwleidyddiaeth, llywodraeth ac economi gwleidyddol Cymru, yn ogystal â chyd-destunau llywodraethiant tiriogaethol ehangach y DG ac Ewrop. Nod allweddol y Ganolfan yw hwyluso ac annog trafodaeth gyhoeddus ddeallus yn seiliedig ar wybodaeth, nid drwy ei hymchwil yn unig ond drwy ddigwyddiadau a dysgu ôl-raddedig hefyd.

Ynglŷn â'r project hwn

Lansiwyd y project Cyfiawnder ac Awdurdodaeth gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd ym mis Gorffennaf 2018. Daw â grŵp o ymchwilwyr academiaidd rhyngddisgyblaethol gan gynnwys gwyddonwyr gwleidyddol, troseddwyr, arbenigwyr ar gyfraith gyfansoddiadol ac economegwyr gwleidyddol at ei gilydd er mwyn ymchwilio i weithrediad y system gyfreithiol a chyfiawnder yng Nghymru. Caiff y project ei ariannu gan gyfuniad o'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd.

Yn ogystal â chynhyrchu allbynnau academiaidd o ansawdd uchel, bydd y project yn cynhyrchu cyfres o adroddiadau a fwriadwyd i ddiweddarau a goleuo gwaith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru yn ogystal ag annog trafodaeth gyhoeddus, ddeallus ar drefn a gweithrediad system y gyfraith a chyfiawnder yng Nghymru. Tra bod y tîm ymchwil yn parhau i elwa o'r sylwadau ac argymhellion a wneir gan ein partneriaid allanol, crëwyd a chyflenwyd y rhaglen ei hun yn hollol annibynnol ohonyn nhw.

Ynglŷn â'r Awdur

Mae Guto Ifan yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

ifandg@cardiff.ac.uk

Canolfan Llywodraethiant Cymru
Prifysgol Caerdydd
21 Park Place
Caerdydd CF10 3DQ

www.cardiff.ac.uk/wales-governance-centre

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	5
1. Cyflwyniad	8
2. Trosolwg o ariannu swyddogaethau awdurdodaeth yng Nghymru	9
3. Data a methodoleg	11
4. Ariannu a gwariant yr Heddlu yng Nghymru	13
5. Gwariant ar Lysoedd a Thribiwnlysoedd Cymru	21
5.1 Gwasanaeth Llysoedd & Thribiwnlysoedd EM	22
5.2 Cymorth cyfreithiol	25
5.2.1 Cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion Deddf Plant	28
5.2.2 Gwasanaethau trydedd sector	30
5.3 Gwasanaeth Erlyn y Gorlon	32
5.4 Gwariant arall Llywodraeth y DG ar gyfiawnder	33
5.5 Gwariant Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol	33
6. Gwariant Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf	35
7. Casgliad	40
Ffynonellau	41

Crynodeb Gweithredol

Fel rhan o broject Canolfan Llywodraethiant Cymru ar Gyfiawnder ac Awdurdodaeth yng Nghymru, mae'r adroddiad yn edrych ar raddfa a chyfansoddiad gwariant cyhoeddus ar y system gyfiawnder i Gymru ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hefyd yn adolygu tueddiadau diweddar ers dechrau'r mesurau llymder, yn ogystal â rhoi cymariaethau gyda gwariant yng ngwledydd eraill y DG.

- Gwariwyd bron i £1.2 biliwn ar y system gyfiawnder i Gymru yn 2017-18, sydd gyfwerth â thua £370 y pen a 3.6% o gyfanswm gwariant canfyddadwy ar gyfer Cymru. Cafwyd y gwariant mwyaf o bell yng ngwasanaethau'r Heddlu (£709 miliwn), wedi'i ddilyn gan wariant ar lysoedd barn a thribiwnlysoedd (£251 miliwn), a gwariant ar garchardai a'r gwasanaeth prawf (£205 miliwn).
- Daw'r arian ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff ac asiantaethau sydd yn gyfrifol am gyflenwi swyddogaethau cyfiawnder yng Nghymru o gyllidebau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref yn bennaf. Gan nad yw'r rhain yn feysydd sydd wedi'u 'diogelu' ers dyfodiad llymder yn 2010-11, mae'r ddwy adran wedi gweld toriadau mawrion i'w cyllidebau gyda chanlyniadau arwyddocaol a sylweddol i'r system gyfiawnder yng Nghymru.
- Roedd gwariant ar y system gyfiawnder yng Nghymru ar ei uchaf yn 2009-10 gyda thua £1.5 biliwn ac mae wedi gostwng ers hynny gan dros ugain y cant. Cafwyd peth adferiad mewn gwariant yn ystod blynyddoedd mwyaf diweddar, wedi'i yrru gan gynnydd mewn gwariant gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLITEM) a chan Carchardau a Gwasanaethau Prawf ei Mawrhydi (gan adlewyrchu agoriad Carchar Ei Mawrhydi ym Merwyn).
- Mae tua £442 miliwn, neu 38%, o gyfanswm y gwariant ar y system gyfiawnder yng Nghymru yn dod o ariannu datganoledig neu lywodraeth leol erbyn hyn. Mae'r elfen ddatganoledig a llywodraeth leol o wariant cyfiawnder wedi tyfu mewn gwir dermau ers 2009-10, tra bod ariannu llywodraeth y DG sydd wedi'i gadw, wedi gostwng gan un rhan o dair mewn gwir dermau yn ystod y cyfnod hwn.

Ariannu'r heddlu a gwariant yng Nghymru

Mae pob un o bedwar llu heddlu Cymru'n derbyn eu harian gan dri phrif ffynhonnell: Grant Heddlu'r Swyddfa Gartref (£209 miliwn yn 2018-19); Llywodraeth Cymru drwy grant cymorth refeniw a chyfraddau annomestig sydd heb eu hail-ddosbarthu (£141 miliwn); a thrwy praesept treth cyngor (£290 miliwn).

- Ers dechrau llymder yn 2010-11, mae grant yr heddlu wedi gostwng gan 24% mewn gwir dermau, gyda chwmp ariannu tebyg o'r Grant Cynnal Refeniw a threthi annomestig. Yn wrthwyneb i hyn, mae taliadau Treth Cyngor wedi cynyddu gan tua 26%, gan ei osod yn erbyn y gostyngiad a gafwyd yng nghymorth llywodraeth ganolog.
- Mae'r gyfran o ariannu'r heddlu a ddaw o braesept treth y cyngor wedi cynyddu o 17% yn 1999-00 i 42% yn-19. Fodd bynnag mae grant y Swyddfa Gartref wedi disgyn i 30% yn ystod yr un cyfnod.
- O edrych ar dueddiadau mewn refeniw Treth Cyngor, gwelir dargyfeiriedd allweddol rhwng y modd yr ariannir yr heddlu yng Nghymru ac yn Lloegr, gyda lefelau praesept yn codi'n gynt mewn ardaloedd heddlu Cymreig (cyfartaledd o 4% y flwyddyn) nac yn Lloegr (2.4% y flwyddyn) ers 2010-11. Golyga'r cynnydd cynt yma mewn praeseptau heddlu bod ariannu'r heddlu yng Nghymru £34 miliwn yn fwy yn 2017-18 nac y byddai wedi bod pe bai'r praeseptau wedi cynyddu yn unol â'r rhai yn Lloegr.
- Adlewyrchir y dargyfeiriedd ariannol hyn drwy ostyngiad ychydig yn llai mewn gwariant a gostyngiad llai eto yn niferoedd heddweision yng Nghymru o gymharu â Lloegr ers 2010. O ganlyniad i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ariannu 500 yn ychwanegol o Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu (SCCH) cafwyd cynnydd yn y nifer o SCCHau y pen yng Nghymru o 2010. Tra bo'r rhif cyfatebol ar gyfer Lloegr wedi disgyn gan 44%.

Llysoedd barn a thribiwnlysoedd

Roedd cyfanswm y gwariant cyhoeddus a amcangyfrifwyd ar lysoedd barn a thribiwnlysoedd yng Nghymru yn 2017-18 ychydig yn fwy na £251 miliwn yn 2010-11. Me hyn yn cynnwys gwariant gan adrannau, asiantaethau a lefelau amrywiol o lywodraeth.

- Roedd y gwariant net gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yng Nghymru yn £67.6 miliwn yn 2017-18.¹ Gostyngodd gwariant gan bron i 27% yn y blynyddoedd hyd at 2014-15.
- Gwnaed toriadau eang i'r system cymorth cyfreithiol ers 2012. Roedd gwariant cymorth cyfreithiol yng Nghymru yn £76.9 miliwn yn 2017-18, gyda chymorth cyfreithiol sifil yn gyfrifol am y gyfran uchaf o'r gwariant yma (£42 miliwn). O gymharu â Lloegr, mae cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion troseddol yn sylweddol is yng Nghymru. Mae cyfanswm y gwariant ar gymorth cyfreithiol wedi disgyn gan dros 38% mewn gwir dermau ers 2010-11.
- Adroddwyd bod gwariant Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru (CPS) yn 2017-2018 oddeutu £23.9 miliwn (gan gynnwys cyfran pro-rata o wariant canolog). Mae gwariant wedi

¹ Dyma ffigur crynswth incwm ffioedd y llys, a amcangyfrifir i fod yn £22.9 miliwn yng Nghymru yn 2017-18.

gostwng gan bron i bumed ers 2012-13, tra bo'r nifer o staff llawn-amser cyfwerth wedi disgyn gan tua chwarter.

- Ymhlith gwariant arall gan Lywodraeth y DG yng Nghymru yn y maes hwn mae £7 miliwn gan yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol (CICA), sydd i lawr o uchafswm o £26 miliwn yn 2011-12. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn mynd i gostau canolog na ellir eu cyfrifo'n ddaearyddol. Cyfanswm cyfran o'r gwariant yn seiliedig ar boblogaeth Cymru yn 2017-18 oedd £55 miliwn.
- Roedd y gwariant a gafwyd o Gyllideb Llywodraeth Cymru 2017-18 ar driwlynlysoedd o dan ei gyfrifoldeb ychydig dros £3 miliwn, gyda'r gwariant mwyaf wedi'i wneud gan y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (£2.5 miliwn yn 2016-17).
- Gwariodd llywodraeth leol yng Nghymru tua £5.4 miliwn hefyd yn 2017-18 ar wasanaethau eraill y llysoedd a'r crwner.

Gwariant Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yn asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ac yn gyfrifol am wasanaethau cywiro ar draws Cymru a Lloegr. Roedd cyfanswm yr hyn a wariwyd ar garchardai a gwasanaethau prawf yng Nghymru (gan gynnwys cyfran o gostau canolog wedi'i glustnodi) yn £205 miliwn yn 2017-18.

- Sefydlwyd HMPPS yng Nghymru yn 2014-15 ac mae ganddi gyfrifoldeb ar gyfer rheoli troseddwyd yn y ddalfa a gwasanaethau prawf yng Nghymru. Ei wariant net oedd £183 miliwn yn 2017-18, sef cynnydd o £130 miliwn yn 2014-15, sydd yn adlewyrchu agoriad Carchar Ei Mawrhydi Berwyn. Mae cyfarwyddiaethau eraill HMPPS hefyd yn cyflenwi gwasanaethau yng Nghymru, gan gynnwys y gyfarwyddiaeth Cytundebau Dalfeydd, Gwasanaeth Dalfa Ieuenctid, Ymyraethau Cymunedol a'r gyfarwyddiaeth Monitro Electronig.
- Gostyngodd gwariant ar garchardai'n sylweddol rhwng 2010-11 yng Nghymru a Lloegr er i boblogaeth carchardai aros yn gyson. Yng Nghymru, roedd y gwariant adnoddau cyffredinol mewn carcharai yn 2017-18, sydd yn cynnwys gwariant ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol, yn £168 miliwn. Yn wahanol i'r darlun a gafwyd yn Lloegr, mae gwariant ar garchardai yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â chynnydd mawr o 42% ym mhoblogaeth carchardai a leolwyd yng Nghymru ers 2010-11.
- O ran mesur amgen, amcangyfrifir mai tua £189 miliwn oedd y gwariant cyffredinol a wnaed ar garcharorion o Gymru (yn seiliedig ar eu cyfeiriad cyn cael eu cadw yn y ddalfa). Gwariwyd bron i 40% o'r gwariant hwn ar garcharorion Cymreig mewn carchardai tu allan i Gymru.


1

Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn yng Nghymru yn cynnal y prif archwiliad cyntaf o swyddogaethau cyfiawnder yng Nghymru ers sefydlu sefydliadau datganoledig y wlad yn 1999. Un ystyriaeth bwysig yw sut mae'r system bresennol yn cael ei ariannu a sut gallai newidiadau posib i'r system yng Nghymru weithio yn y DG a'r cyd-destun ariannol datganoledig.

Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi graddfa a chyfansoddiad gwariant cyhoeddus cyfredol ar y system gyfiawnder yng Nghymru - a gwariwyd bron £1.2 biliwn arno yn 2017-18 (ffigur 1.1), sydd gyfwerth â thua £370 y person ac yn gyfrifol am tua 3.6% o gyfanswm y gwariant gellir ei adnabod ar gyfer Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn adolygu tueddiadau diweddar ers dechrau mesurau llymder yn 2010-11, ac yn archwilio amryw ffynonellau o ariannu, yn ogystal â chynnig cymariaethau gyda gwariant yng ngwledydd eraill y DG.

Ffigur 1.1: Crynodeb o wariant cyhoeddus ar y system gyfiawnder i Gymru, 2017-18



Ffynhonell: Trysorlys Ei Mawrhydi (2018) Dadansoddiad Gwladol a Rhanbarthol

Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn. Mae Adran 2 yn cynnig trosolwg o ariannu'r swyddogaethau cyfiawnder yng Nghymru, gan osod cyd-destun ar gyfer adrannau hwyrach. Mae Adran 3 yn adolygu ffynonellau data amrywiol a ddefnyddir yn y dadansoddiad data dilynol. Mae Adrannau 4, 5 a 6 yn dadansoddi ariannu'r heddlu, gwariant y llysoedd barn a thribiwnlysoedd, a charchardai a gwasanaethau prawf yn ôl eu tro. Mae Adran 7 yn dod i ben drwy grynhoi prif nodweddion a thueddiadau mewn gwariant ar y system gyfiawnder yng Nghymru.

2

Trosolwg o ariannu swyddogaethau cyfiawnder yng Nghymru

Gan fod y rhan fwyaf o swyddogaethau cyfiawnder wedi eu cadw yn ôl gan Lywodraeth y DG, caiff gwariant ar y rhan fwyaf o agweddau'r system gyfiawnder yng Nghymru ei gyllido gan adrannau llywodraeth y DG, a'u darparu gan gyrff sydd yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr gan fwyaf.

Yn wahanol i Ogledd Iwerddon a'r Alban, does dim cyllideb gan Lywodraeth ddatganoledig Gymreig ar gyfer cyfiawnder. Penderfynir ar newidiadau blynyddol i gyllidebau datganoledig y tair gweinyddiaeth drwy gyfrwng fformiwla Barnett, ac mae'r 'ffactorau cymaroldeb' a ddefnyddir yn y cyfrifiad hwn ar gyfer swyddogaethau cyfiawnder yn 0% ar gyfer Cymru'.² Golyga hyn nad oes gwariant 'ôl-ddilynol' sydd yn cael ei ychwanegu neu ei dynnu o gyllideb Llywodraeth Cymru wrth i gyllid neilltuedig llywodraeth y DG gynyddu neu leihau, yn wahanol i'r hyn sydd yn digwydd gyda gwariant datganoledig fel gydag Iechyd.

Daw'r rhan fwyaf o arian ar gyfer cyrff ac asiantaethau sydd yn gyfrifol am gyflenwi swyddogaethau cyfiawnder yng Nghymru o gyllideb y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bennaf, tra bod cyllideb y Swyddfa Gartref hefyd yn rhoi arian ar gyfer lluoedd heddlu Cymru.


Ers 2009-10, mae gwariant Llywodraeth y DG o ddydd i ddydd ar wasanaethau cyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol mewn gwir dermau. Gan fod rhai meysydd o wariant wedi cêl eu gwarchod, cafwyd y toriadau mwyaf mewn gwasanaethau cyhoeddus sydd heb eu gwarchod. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y modd y caiff y system gyfiawnder yng Nghymru ei ariannu. Dengys ffigur 2.1 y newidiadau gwirioneddol mewn cyllidebau adrannol o 2010-11 i 2019-20, yn seiliedig ar gynlluniau gwariant cyfredol. Mae'n dangos cyllideb y Weinyddiaeth Gyfiawnder (o le y bydd yn ariannu asiantaethau amrywiol) a sut y bydd wedi wynebu'r toriadau dyfnaf i'w chyllideb allan o holl adrannau'r llywodraeth erbyn 2019-20. Mae cyllideb y Swyddfa Gartref hefyd wedi gostwng gan bron i chwarter o'i lefel 2010-11.

Er y caiff ei ystyried yn swyddogaeth sydd heb ei ddatganoli, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i ariannu rhai meysydd o'r system gyfiawnder yng Nghymru (er enghraifft, ariannu system yr heddlu yn rhannol), a bydd ei chyllideb ddatganoledig yn cynnwys gwariant sydd yn rhyngweithio gyda'r system gyfiawnder mewn nifer o ffyrdd. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael ei dorri'n

² Yr eithriad i hyn yw bod peth o ariannu'r heddlu a arferai ddod o Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr, yn dylanwadu ar faint cyllideb Cymru o flwyddyn i flwyddyn.

sylweddol hefyd ers 2010-11. Roedd cyllideb gwariant o ddydd i ddydd 2019-20 5% yn is mewn gwir dermau na'r lefel a gafwyd ar ddechrau'r ddegawd.

Ffigur 2.1: Newidiadau cyllideb mewn gwir dermau adrannol (gwariant dydd-i-ddydd), 2010-11 i 2019-20³



Ffynhonell: Trysorlys Ei Mawrhydi (2018) Gwariant Cyhoeddus a Dadansoddiadau Ystadegol; Nodyn: adnodd DEL heb gynnwys dibrisiant

³ Heb gynnwys cyllidebau adrannol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon oherwydd addasiadau enfawr sydd yn gysylltiedig gyda datganoli refeniw treth. Mae'r ffigurau hefyd yn adlewyrchu newidiadau mewn dosbarthiad a throsglwyddiadau rhwng cyllidebau adrannol.

3

Data a methodoleg

Mae Dadansoddiad Gwladol a Rhanbarthol Trysorlys Ei Mawrhydi (CRA) 2018 yn cynnig prif ffynhonnell data'r adroddiad hwn ac yn cyflwyno gwariant cyhoeddus ar sail Gwariant Cyfan ar Wasanaethau (TES). Mae TES yn cynnwys gwariant adrannol (DEL) a hefyd gwariant a reolir yn flynyddol (AME) ar gyfer gwariant cyfredol a chyfalaf. Nid yw data CRA yn cynnwys dibrsiad a rhai eitemau eraill nad sy'n gwario arian parod.

Lle gellir gwlad neu ranbarth fod wedi elwa o wariant, fe'i gelwir yn Wariant Adnabyddadwy', ac fe'i neilltuir drwy ddadansoddiadau o ddata daearyddol drwy naill ai'r adran berthnasol neu Drysorlys EM. Lle nad yw dosrannu ar sail gwlad neu ranbarth yn bosibl, dyrannir peth gwariant i Gymru yn seiliedig wariant canolog fesul cyfran o'r boblogaeth (amlygir yr enghreifftiau hyn mewn adrannau dilynol). Os mai'r farn yw bod gwariant er budd pob gwlad a rhanbarth (er enghraifft, yn achos cyfiawnder, gwariant yr Uchel Lys), ystyrir fod hyn yn wariant na ellir ei adnabod ac felly nad yw wedi ei ddosrannu'n ddaearyddol yn nata'r CRA.

Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio cronfa ddata manwl y CRA, sydd yn cynnwys llinellau gwariant manwl gan adrannau'r Llywodraeth. Dadansodwn y data yn seiliedig ar Gategorïau Dosbarthu Swyddogaethau'r Llywodraeth (COFOG) Lefel 1, yn bennaf: '3.1 Gwasanaethau'r Heddlu'; '3.2 Llysoedd Barn'; a '3.3 Carchardai'. Defnyddir y golofn 'Enw Segment CRA' hefyd i adnabod yr asiantaeth neu gorff llywodraethol cyfrifol.

Mae pob cyhoeddiad gan y CRA yn cyflenwi data ar gyfer pum mlynedd olynol. Er enghraifft, mae cyhoeddiad 2018 y CRA yn rhedeg o 2013-14 hyd at 2017-18. Ar gyfer y blynyddoedd cyn 2013-14, defnyddiwn y cyhoeddiad CRA diweddaraf i gyhoeddi data am y flwyddyn honno, e.e. CRA 2017 ar gyfer y flwyddyn 2012-13.

Mae gan y ffynhonnell data yma nifer o fanteision ar gyfer cynnal dadansoddiad eang o wariant ar y system gyfiawnder yng Nghymru. Mae'n caniatáu am ddata (cyffredinol) gymharol ar draws y blynyddoedd, yn hwyluso cymariaethau gyda rhannau eraill o'r DG, ac yn cyflwyno gwahanol feysydd gwariant ar sail gyson. Fodd bynnag nid yw'r data yn caniatáu rhestr fanwl o feysydd gwariant arbennig tu hwnt i'r hyn a gaiff ei wario gan adran yn y llywodraeth neu asiantaeth neu gorff ar lefel gwladol neu ranbarthol.

Ychwanegwn ffynonellau eraill felly i'r data hwn. Er enghraifft, defnyddiwn gyllidebau lywodraeth Cymru i chwilota gwariant datganoledig a defnyddiwn ddata StatsWales ar ariannu'r heddlu. Lle yw'n

briodol, defnyddiwn Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon sefydliadau sydd yn gyfrifol am gyflenwi cyfiawnder yng Nghymru.

Gwnawn ddefnydd o ddata a roddwyd i'r Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru gan adrannau ac asiantaethau llywodraeth y DG, yn ogystal â'r sefydliadau datganoledig.

Caiff ffigurau mewn gwir dermau a gyflwynir yn y dadansoddiad eu dadchwyddo gan ddefnyddio'r datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y Cyfrifon Cenedlaethol Chwarterol (dyddiwyd Medi 28, 2018).

4

Ariannu a gwariant yr Heddlu yng Nghymru

Caiff pedwar heddlu Cymru eu hariannu gan dri phrif ffynhonnell: grant heddlu'r Swyddfa Gartref; Llywodraeth Cymru drwy grant cynnal refeniw ac ardrethi annomestig a gafodd eu hail-ddosbarthu, a praesept treth cyngor yr awdurdod lleol.

Caiff dosbarthiad grant y Swyddfa Gartref ei seilio ar Fformiwla Ddyrannu'r Heddlu sydd yn ystyried maint y boblogaeth leol a dangosyddion sydd yn adlewyrchu tebygrwydd trosedd.⁴ Bydd grant ychwanegol Cymreig hefyd yn sicrhau bod Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru yn cael yr un newid o ran canran yn eu grant craidd â Chomisiynwyr yn Lloegr. Beirniadaeth a gafwyd yn aml o'r fformiwla oedd ei ddibyniaeth ar hen ddata yn ei ddangosyddion. Disgrifiwyd y fformiwla mewn adroddiad gan y Grŵp Ymgynghori Trafodaeth Genedlaethol (2015) yn 'gymhleth iawn, afloyw a, drwy ei ddibyniaeth ar hen ddata ac atchweliad, yn bell o realaeth plismona heddiw'. Ystyriodd Adolygiad dosbarthu Grant Craidd y Swyddfa Gartref yn 2016-17 y newidiadau potensial i fformiwla ariannu'r heddlu, a gaiff ei ailystyried yn yr Adolygiad Gwariant nesaf, a ddisgwylid yn 2019, ond ymddengys fel ei fod wedi cael ei ohirio erbyn hyn. Yn 2018-19, roedd y **grant heddlu a gyllidwyd ar gyfer heddluoedd Cymru yn £209 miliwn.**

Drwy gyfrwng y setliad ariannol i lywodraeth leol, rhoddodd Llywodraeth Cymru **£141 miliwn i heddluoedd Cymru yn 2018-19, drwy gyfrwng refeniw ardrethi annomestig a ail-ddosbarthwyd a'r grant cynnal refeniw.** Mae hwn yn cyfateb i'r ariannu a ddosbarthwyd yn flaenorol gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr cyn iddo gael ei ymgorffori mewn i grant y Swyddfa Gartref yn 2013-14.

Caiff lefel elfen praesept treth cyngor yr heddlu ei osod yn flynyddol gan y Comisiynwyr a bydd yr awdurdodau lleol yn eu casglu ar eu rhan. Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros bolisi treth cyngor gan gynnwys rhoi unrhyw gap ar y praesept. **Cyllideb y praesept yn 2018-19 oedd £290 miliwn.**


Bydd heddluoedd hefyd yn cael grantiau penodol ac arbennig er mwyn cyflenwi blaenoriaethau cenedlaethol. **Cyfanswm y grantiau penodol hyn i heddluoedd Cymru oedd £51 miliwn yn 2018-19.** Elfyn fwyaf yr ariannu hyn ar draws Cymru a Lloegr yw'r Grant Cudd-wybodaeth Gwrth Derfysgaeth. Mae heddluoedd Cymreig hefyd yn gwneud ceisiadau am rai grantiau o'r Swyddfa

⁴ Canllaw'r Swyddfa Gartref i'r fformiwla: <https://www.gov.uk/guidance/guide-to-the-police-allocation-formula#rule-2-grants>

Gartref, er enghraifft o Gronfa Trawsffurfiad yr Heddlu.⁵ Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi grantiau penodol i luoedd heddlu Cymru, er enghraifft i Swyddogion Cymorth Cymunedol (£16 miliwn yn 2017-18) a Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan (£3.1 miliwn).

Gall heddluoedd Cymru dynnu ar gronfeydd hefyd er mwyn cefnogi gwasanaethau. Ar ddiwedd 2017-18, fe wnaeth heddluoedd Cymru gadw £33.6 miliwn mewn cronfeydd cyffredinol (a ddefnyddid fel arfer i reoli llif arian anghyson), a £98.4 miliwn ychwanegol mewn cronfeydd a glustnodwyd, ac a neilltuwyd ar gyfer projectau penodol. Mae heddluoedd wedi gwneud neilltuadau ariannol o'u cronfeydd yn ystod y blynyddoedd diweddar, a disgwylir o ran cyllideb y byddant yn tynnu ar £30.7 miliwn er mwyn ariannu gwariant refeniw yn 2018-19.


Ffigur 4.1: Ariannu'r heddlu fesul ffynhonell (prisoedd 2017-18, ac eithrio cronfeydd ac addasiadau)



Ffynhonell: Statswales (2018 a blaenorol) Ariannu Gwariant Refeniw Crynswth

⁵ Enghraifft o gais llwyddianus gan heddluoedd Cymru oedd y cais a wnaed ar y cyd gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill ar gyfer y rhaglen Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod. Gweler: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/46584>

Ffigur 4.2: Ariannu'r heddlu fesul ffynhonell, 2018-19 (ac eithrio cronfeydd ac addasiadau)




Ffynhonell: Statswales (2018) Ariannu Gwariant Refeniw Crynswth

Ers dechrau cyflwyno mesurau llymder yn 2010-11, mae grant yr heddlu wedi gostwng gan 24% (£66 miliwn) mewn termau real, gyda chwymp tebyg yn y Grant Cynnal Refeniw a'r ardrethi annomesstig a ail-ddosbarthwyd. I'r gwrthwyneb i hyn, mae refeniw Trethi Cyngor wedi cynyddu gan tua 26%, gan fantoli'r cwmp yn y gefnogaeth a geir gan lywodraeth ganolog.

Mae Ffigur 4.1 yn dangos y tueddiad mewn ariannu'r heddlu yng Nghymru o 1999-00 i 2018-19, yn nhermau real. Cododd yr ariannu yn ystod y cyfnod cyntaf hwn, ond fe ddisgynnodd gan tua 12% yn nhermau real ers 2010-11. O safbwynt hirach dymor, mae pwysigrwydd cymharol y gwahanol ffynonellau yma ariannu wedi newid gyda threigl amser, gyda dibyniaeth gynyddol ar drethi lleol. Mae'r gyfran o ariannu i'r heddlu a ddaw o braesept treth y cyngor wedi cynyddu o 17% yn 1999-00, i 42% yn 2018-19. Yn y cyfamser, mae grant y Swyddfa Gartref wedi disgyn i 30%, sef bron hanner lefel 1999-00.

Ffigur 4.3: Cyfartaledd Praesept treth cyngor Band D a newidiadau blynyddol, 2009-10 hyd 2018-19 (nominal)




Ffynhonell: Statswales (2018 a blaenorol) Financing of Gross Revenue Expenditure and CIPFAstats (2018 a blaenorol) Council Tax Demands and Precepts

Mae'r dueddiad yma o ariannu refeniw gan dreth cyngor yn cynrychioli dargyfeiredd allweddol rhwng Cymru a Lloegr o ran ariannu'r heddlu ers 2010-11.⁶ Er bod rhoi cap ar gynnydd mewn lefel praesept o fewn pŵer Llywodraeth Cymru, nid yw wed gwneud hynny yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn wahanol i Lywodraeth y DG, wnaeth hi ddim cynnig grantiau rhewi treth cyngor i awdurdodau heddlu, a dalwyd i awdurdodau heddlu yn Lloegr a ddewisodd i beidio â chynyddu eu lefel treth cyngor am y flwyddyn honno. O ganlyniad, mae lefelau praesept wedi codi yn gynt yn ardaloedd heddlu Cymru nac yn Lloegr (gweler ffigur 4.4 sydd yn mapio cynnydd fesul heddlu o 2010-11 i 2017-18).

Mae Ffigur 4.3 yn dangos cynnydd ar gyfartaledd ym mhraesept heddlu treth cyngor ar gyfer anheddau Band D yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio Awdurdod Llundain Fwyaf) ers 2009-10. Mae lefel y praesept cyfartalog a osodwyd yng Nghymru wedi cynyddu gan gyfartaledd o 4% y flwyddyn o 2010-11 i 2018-19, a dim ond gan 2.4% y flwyddyn yn Lloegr (termau bras). Er nad yw'n hollol gymharol o ganlyniad i wahanol systemau brandio, mae lefelau praesept sydd gyfwerth â Band D Cymru yn uwch o lawer nawr nac yn Lloegr. Fodd bynnag, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganiatáu mwy o ryddid i heddluoedd gynyddu treth cyngor ar gyfer 2018-19, cododd lefelau ynghynt yn Lloegr nac yng Nghymru am y tro cyntaf mewn degawd.

⁶ Ffigurau ar gyfer Lloegr ac eithrio Swyddfa Maer Awdurdod Llundain Fwyaf dros Blismona a throseddau.

Ffigur 4.4: Cynnydd mewn lefel praesept heddlu yn nhreth cyngor cyfartalog Band D fesul awdurdod heddlu




Mae ariannu ar gyfer plismona yng Nghymru felly wedi dod llawer yn fwy dibynnol ar refeniw o dreth cyngor nac yn Lloegr (er bod yna amrywiaeth rhwng lloedd yn heddlu yn Lloegr). Ar ôl cyfrif Grantiau Cymyn Treth Cyngor y Swyddfa Gartref i heddluoedd Lloegr, golygodd y cynnydd cynt hwn mewn praeseptiau heddlu bod ariannu heddlu Cymru £34 miliwn yn fwy nac y byddai wedi bod yn 2017-18 pe bai'r praeseptiau wed codi yn unol â Lloegr ers 2010-11. Yn ystod y cyfnod rhwng 2010-11 i 2018-19, mae hyn yn dod i gyfanswm cyfunol o thua £213 miliwn mewn gwir dermau.

Mae'r data alldro yn dangos gwariant refeniw crynswth o £692 miliwn gan y pedwar heddlu Cymreig yn 2017-18. Gan Heddlu De Cymru oedd y gwariant mwyaf (£296 miliwn), wedi'i ddilyn gan Heddlu Gogledd Cymru (£164 miliwn), Heddlu Gwent (£120 miliwn) a Heddlu Dyfed Powys (£111 miliwn). Fe wnaeth heddluoedd Cymru gofnodi bron i £40 miliwn mewn gwariant cyfalaf yn 2017-18, gyda £27 miliwn ohono yn wariant cyfalaf a arianwyd gan wariant refeniw crynswth.

Gwelir gwir ogwydd gwariant y pen fesul gwlad yn y DU gan yr heddlu yn Ffigur 4.5, fel yr adroddwyd yn nata Asiantaeth Gwirio Credyd Trysorlys ei Mawrhydi (2018).⁷ Mae gwariant fesul y pen wedi disgyn fwyaf yng Ngogledd Iwerddon, er bod lefelau yn parhau i fod llawer yn uwch na gwledydd eraill y DG. Mae gwariant y pen yn yr Alban yn parhau i fod yn uwch nac yng Nghymru a Lloegr, gydag anweddolrwydd yn y data dros amser efallai'n adlewyrchu prif ddiwygiadau i wasanaethau'r heddlu a'u dull o gyflenwi, yn bennaf cyfuno heddluoedd. Lle'r oedd gwariant y pen yn Lloegr yn uwch nac yng Nghymru ar y dechrau, mae wedi syrthio'n gynt ers 2010-11, ac wedi bod yn is na lefelau Cymreig ers 2013-14.

Ffigur 4.5: Gwariant y pen ar blismona, 2010-11 i 2017-18 (prisoedd 2017-18)




Ffynhonnell: Trysorlys Ei Mawrhydi (2018) Dadansoddiad fesul Gwlad a Rhanbarth

Mae Ffigur 4.6 yn mapio'r gwir newid a gafwyd mewn grantiau gan y llywodraeth ganolog a referniw gan dreth y cyngor o 2010-11 i 2017-18 fesul bob ardal heddlu ar draws Cymru a Lloegr. Mae tri o'r pump llu a welodd y gostyngiadau isaf mewn ariannu ers 2010-11 yn luoedd Cymreig.

⁷ Mae data'r CRA yn gwahaniaethu o ffigurau a wyntyllwyd yn flaenorol— gan eu bod yn cynnwys gwariant cyfredol a chyfalaf, ac yn eithrio peth dibrisiad ac eitemau eraill sydd heb fod yn arian parod. Maen nhw hefyd yn cynnwys peth gwariant gan y Swyddfa Gartref (gweler ddiwedd yr arian hon).


Ffigur 4.6: Gostyngiad cyfartalog mewn ariannu (cefnogaeth grant a threth cyngor) fesul awdurdod heddlu



Adlewyrchir y cwmp mwy araf hwn mewn gwariant gan yr heddlu yng Nghymru mewn cwmp llai yn niferoedd plismyn yng Nghymru o gymharu â Lloegr yn ystod y cyfnod hwn. Yn Ffigur 4.7 gwelir y nifer o blismyn (cyfwerth ag amser-llawn) yng Nghymru a Lloegr i bob 100,000 o'r boblogaeth. Lle'r oedd y ffigur yma 9.3% yn uwch yn Lloegr yn 2010, fe gododd y nifer o blismyn y pen yng Nghymru ychydig yn uwch na Lloegr erbyn 2018. Disgynnodd y nifer o blismyn y pen yn Lloegr gan bron i 20% tra bod Cymru wedi gweld gostyngiad o 10%. Pe bai nifer y plismyn yng Nghymru wedi gostwng gan yr un gyfradd ag yn Lloegr ers 2010, byddai 546 yn llai erbyn heddiw.

Gwelir dargyfeiredd rhwng Cymru a Lloegr mewn maes arall o ariannu'r heddlu, sef ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOau). Un o brif ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn ei Raglen Llywodraethu 2011-2016 oedd i ariannu 500 o PCSOau ychwanegol yng Nghymru (Lowe et al, 2015). Cyflwynwyd ariannu grant penodol yn 2012 er mwyn gweithio'n groes i'r cwmp yn lefel gweithlu'r heddlu, ac fe gadwyd yr ariannu hyn mewn blynyddoedd dilynol, ac roedd o gwmpas tua £16 miliwn yn 2017-18 yn ôl cyfrifon blynyddol yr heddlu. Yn Ffigur 4.7 gwelir hefyd y nifer o PCSOau i bob 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr (llinellau torredig).

Ffigur 4.7: Gogwydd yn y nifer o blismyn a PCSOau (cyfwerth â llawn-amser) fesul bob 100,000 o'r boblogaeth 2010-11 i 2017-18 (prisoedd 2017-18)



Ffynhonnell: Swyddfa Gartref (2018) Tablau data agored gweithlu'r Heddlu a chyfrifiadau'r awdur

Mae'r twf cynt yn y refeniw a ddaw o dreth y cyngor a'r ariannu a gaiff y PCSOau yn cynnig enghreifftiau da o sut mae polisi ariannol datganoledig Gymreig yn effeithio ar ariannu a deiliannau plismona ng Nghymru o dan y system bresennol.

Ceir enghreifftiau amlwg eraill o'r gyllideb ddatganoledig yn rhyngweithio gyda chyllidebau heddluoedd. Er enghraifft, clustnodwyd £1.98 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 er mwyn adfer arian ar gyfer y Rhaglen Cydgysylltu ar gyfer Ysgolion Cymru Gyfan, sydd wedi ei gynllunio i addysgu plant a phobl ifanc ynglŷn â materion fel camddefnyddio sylweddau. Caiff yr arian hwn ei gyfateb gan y pedwar heddlu. Cafwyd enghraifft amlwg arall yn ystod y blynyddoedd diweddar gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru i Ymgyrch TARIAN, yr Uned Trosedd Gyfundrefnol Rhanbarthol, sydd yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a thri heddlu Cymreig. Cafwyd gostyngiad yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diweddar ac fe gafodd ei dorri ymhellach yng nghyllideb 2018-19 (Llywodraeth Cymru 2017).

Gall y nifer o ffrydiau ariannu a chymhlethdod y system greu ansicrwydd ynglŷn â pha arian sydd ar gael ac nad sydd ar gael i heddluoedd Cymru (Jones ac Wyn Jones ar ddod). Enghraifft dda o hyn oedd mater y Lefi Prentisiaeth. Bydd heddluoedd Cymru yn cyfrannu tua £2 filiwn yn flynyddol tuag at lefi

Llywodraeth y DG. Fodd bynnag, gan fod plismona yn fater a gedwir yn ôl, tra bod hyfforddiant ac addysg wedi ei ddatganoli, wnaeth yr un llywodraeth ymrwymo i i gefnogi prentisiaethau ar gyfer plismyn.

Yn ogystal â gwariant gan heddluoedd Cymru, caiff peth gwariant canolog gan y Swyddfa Gartref ac asiantaethau erial ei glustnodi i Gymru yn nata'r CRA.

Mae gwariant canolog gan y Swyddfa Gartref a'i gyrff hyd-braich wedi cael ei glustnodi yn seiliedig ar benderfyniad Grant yr Heddlu. Dyrannwyd tua £19 miliwn o wariant Grŵp Troseddu a Phlismona'r Swyddfa Gartref yn 2017-18. Roedd gwariant cyfran Cymru gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth ei Mawrhydi tua £630,000 yn 2017-18.


Mae'r CRA yn dosrannu gwariant Heddlu Trafnidiaeth Prydain i Gymru yn seiliedig ar ddadansoddiad rhanbarthol o niferoedd teithwyr ar y trê neu reilffordd ysgafn. Cyfanswm y dosraniad hwn oedd £5.2 miliwn yn 2017-18. Yn y cyfamser, dosrannwyd gwariant yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil ar sail poblogaeth ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban; cyfran Cymru ar gyfer 2017-18 oedd £5.4 miliwn.

5

Gwariant ar Lysoedd a Thriwilysoedd Cymru

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm gwariant cyhoeddus ar lysoedd a thriwilysoedd Cymru yn 2017-18 oedd tua £251 miliwn yn 2010-11. Fel y gwelir yn Ffigur 5.1, mae hyn yn cynnwys gwariant gan wahanol adrannau, asiantaethau a lefelau llywodraeth. Mae'r gost o gyflenwi gwasanaethau yng Nghymru wedi ei gynnwys o fewn yr amcangyfrifiad, yn ogystal â dosrannu amryw gostau canolog i Gymru. Gwelir hefyd yn Ffigur 5.1 y gostyngiad ar wariant mewn gwir dermau sydd wedi digwydd ers 2010-11. Yn yr adran hon cawn ddadansoddiad manwl o wariant cydrannau amrywiol y llysoedd.

Ffigur 5.1: Gwariant cyhoeddus ar Lysoedd a Thriwilysoedd Cymru, 2010-11 i 2017-18 (prisoedd 2017-18)



Ffynhonnell: Trysorlys Ei Mawrhydi (2018) Dadansoddiad ar sail Gwlad a Rhanbarth; Statswales (2018) Crynodeb gwariant alldro Adolygiad Llywodraeth Leol; Llywodraeth Cymru (2018 a blaenorol) Ail Gyllidebau Cyflenwadol; a chyfrifiadau'r awdur

Noder: Daw y ffigurau ar gyfer Llysoedd a Thriwilysoedd Ei Mawrhydi o 2011-12 i 2017-18 o dystiolaeth a gyfodd ei gyflwyno i'r Comisiwn, 2010-11, y ffigur yn seiliedig ar Adroddiadau a Chyfrifon Blyneddol GLIthEM ar sail "Rhanbarth Cymru" ac wedi eu graddio i gyfateb â'r data ar gyfer blyneddol dilynol. Daw'r ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer Gwasanaeth Eryl y Goron o ddata CRA. Fodd bynnag dylid nodi y cafwyd newid yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth drosrannu gwariant gwasanaeth Eryl y Goron i Gymru o 2012-13 ymlaen. Gweler adran 5.3 am fanylion pellach a thrafodaeth o'r data a gafodd ei gyflenwi i'r Comisiwn.


5.1 Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi

Asiantaeth o dan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi (GLITheM) ac mae'n gyfrifol am holl achosion troseddol, teuluol a sifil ar draws Cymru a Lloegr (a thriwlynlysoedd sydd heb eu datganoli yng Nghymru a'r Alban). Cafodd ei greu ym mis Ebrill 2011 drwy gyfuno Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaeth y Triwlynlysoedd.

Roedd gwariant gweithredol GLITheM yn £1.8 biliwn yn 2017-18. Fodd bynnag, cafodd tua £789 miliwn o hyn ei dalu gan incwm gweithredol GLITheM, a olygodd gwariant net ar gyfer y flwyddyn o £1.1 biliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r incwm gweithredol hyn yn perthyn i incwm o ffioedd a godwyd ar ddefnyddwyr rhannau di-droseddol y system. Mae gwariant gweithredol GLITheM wedi disgyn gan 22% mewn gwir dermau o 2010-11 i 2017-18 (gweler ffigur 5.2). Mae peth o'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu cwmp yng ngwariant sydd heb fod yn arian parod, fel dibrisiad ac ailgodi adrannol yn cynrychioli cost gwasanaethau a rannir gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (fel adnoddau dynol, TG, gwasanaethau cyfreithiol a barnwrol a chyllid a gweinyddiaeth). Roedd gwariant oedd heb fod yn arian parod yn 2010-11 hefyd yn arbennig o uchel o ganlyniad i gynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer y diffyg trosglwyddo pensiynau, a achoswyd gan dueddiadau croes yn y marchnadoedd stoc wnaeth leihau gwerth yr asedau oedd gan y cynlluniau pensiwn.

Golygodd y cynnydd mewn ffioedd llys bod incwm gwariant GLITheM wedi tyfu gan 24% dros yr un cyfnod, gan yn rhannol osod yn erbyn y cwmp a gafwyd mewn ariannu gan y llywodraeth.


Ffigur 5.2: Cyfanswm gwariant gweithredol GLITheM (ar gyfer Lloegr, Cymru a'r Alban), 2010-11 i 2017-18 (prisoedd 2017-18)



Yn ôl ffigurau a roddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, roedd y gwariant net ar wasanaethau GLITheM a gafodd eu cyflenwi yng Nghymru yn £67.6 miliwn yn 2017-18. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar wir gostau a gafwyd yn 2017-18, costau gyda chod uniongyrchol i ganolfannau cost Cymreig, costau i'w priodoli yn uniongyrchol i redeg adeiladau yng Nghymru, a dosraniad o gostau a reolir yn genedlaethol a swyddogaethau cenedlaethol. Ceir rhestr wedi ei eitemeiddio o gategoriâu cost yn ffigur 5.3. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys costau sydd heb fod yn arian parod fel dibrisiad neu incwm o ffioedd o lysoedd Cymru. Amcangyfrif y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r incwm ffioedd a dderbyniwyd yng Nghymru ar gyfer 2017-18 oedd £22.9 miliwn; yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â chasglu incwm yn ganolog. Byddai hyn yn cyfateb i tua 3.2% o gyfanswm incwm y GLITheM. Byddai'r amcangyfrifon hyn yn golygu mai'r warant net i Gymru o ffioedd incwm ynghyd â chyfran o incymau eraill y GLITheM yn ffigur 5.2) oedd tua £42.1 miliwn

Heb gynnwys dibrisiad a gwariant arall sydd heb fod yn arian parod, gwelir yn ffigur 5.2 bod cyfanswm gwariant gweithredol GLITheM, gwariant net amcangyfrifedig Cymru gyfwerth ag ychydig yn llai na 4% o wariant GLITheM yn 2017-18. Mae hwn yn sylweddol yn llai na chyfran Cymru o boblogaeth Cymru a Lloegr (5.3%) a Phrydain Fawr (4.9%).


Ffigur 5.3: Gwasanaethau GLITheM yng Nghymru fesul categori cost, 2017-18



Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn hefyd yn ein caniatáu i gymharu sut mae gwariant y GLITheM yng Nghymru wedi newid yn ystod blynnyddoedd diweddar (gweler ffigur 5.4). Fe wnaeth gwariant net yng Nghymru gan y GLITheM ddisgyn gan tua 9% mewn gwir dermau o 2010-11 i 2016-

17 ond fe wnaeth hyn adfer ychydig bach i 2017-18. Caiff y cynnydd hwn o 2016-17 ei egluro gan gynnydd yn llwyth gwaith y llys teuluol yng Nghymru a gweithgarwch tribiwnlysoedd nawdd cymdeithasol⁸ Gan nad yw ffigurau Cymru yn cynnwys dibrisiad ac eitemau sydd heb fod yn rhai arian parod, mae hwn yn ran o'r rheswm am y cwmp is mewn gwariant yng Nghymru o gymharu â GLIthEM ar y cyfan (dangosir yn ffigur 5.2) ers 2010-11.

Ffigur 5.4: Gwariant net gan GLIthEM yng Nghymru, 2010-11 i 2017-18 (prisoedd 2017-18)




Ffynhonnell: Tystiolaeth GLIthEM i'r Comisiwn am flynyddoedd 2011-12 i 2017-18. Amcangyfrif yn seiliedig ar gyfrifon GLIthEm 2010-11.

Mae llymder a rhaglen o ad-drefnu a gynlluniwyd i leihau'r angen am bresenoldeb corfforol yn y llysoedd wedi newid ystad y llys a'r tribiwnlys yn sylweddol ers 2010. Mae ymchwil gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2018) yn amlinellu sut y caewyd y llysoedd rhwng 2010 a 2018 gan gynnwys 162 Llys Ynadon, 90 Llys Sirol, 18 adeilad trbiwnlys penodol, 17 llys teulu, ac 8 Llys y Goron. Yn ffigur 5.5 gwelir sut mae'r gostyngiad yn y nifer o lysoedd Ynadon agored hyn wedi effeithio ar yr ystad yng Nghymru o 2010-11 ymlaen.

⁸ Tystiolaeth wedi'i roi gan Susan Acland-Hood o GLIthEM i'r Comisiwn, ar gael yma: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/Oral%20evidence%20to%20the%20Justice%20Commission%20from%20HMCTS%2C%20LAA%20and%20HMPPS.pdf>

Ffigur 5.5: Nifer y llysoedd Ynadon agored yng Nghymru, 2010-11 i 2017-18



Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2018)

5.2 Cymorth cyfreithiol

Mae'r system Cymorth cyfreithiol yn gwneud arian cyhoeddus ar gael i unigolion cymwys er mwyn talu am ran neu'r cyfan o'r costau sydd ynghlwm â chael cyfreithwyr a bargyfreithwyr i'w cynrychioli mewn achosion sifil a throeddol.

Yn ôl ystadegau Cymorth cyfreithiol, roedd gwariant ar gymorth cyfreithiol ar draws Cymru a Lloegr yn fwy nac £1.6 biliwn yn 2017-18.

Fel rhan o fesurau llymder yr adran, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Dros Gyfiawnder ar y pryd, Chris Grayling, doriadau pellgyrhaeddol i'r system cymorth cyfreithiol yn 2012 a 2013. Er y rhoddwyd y gorau i rai argymhellion, cafodd nifer o newidiadau eu gweithredu, gan gynnwys cyflwyno profion modd er mwyn cael help gyda chostau cyfreithiol mewn achosion troseddol a gostyngiadau mewn ffioedd. Mae cyfanswm y gwariant ar gymorth cyfreithiol wedi disgyn gan fwy na 37% mewn gwir dermau ers 2010-11.

Ceir dwy ffordd o fesur gwariant cymorth cyfreithiol. Mesur gwariant achosion caeedig yw'r ffordd gyntaf o wneud hyn, sef sail y rhan fwyaf o ffigurau yn y bwletin ystadegau cymorth cyfreithiol.⁹ Mae'r mesur hwn yn cynrychioli cyfanswm gwerth y taliadau a wneir i ddarparwyr cymorth cyfreithiol mewn perthynas â darnau o waith a gaiff eu cwblhau o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r mesur hwn yn golygu y gellir gweld rhestr eitemedig o wariant yn ôl cynllun, math o wariant a'r darparwr.¹⁰

⁹ Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/statistics/legal-aid-statistics-april-to-june-2018>

¹⁰ Mae'r dadansoddiad canlynol yn seiliedig ar ystadegau Cymorth cyfreithiol yn ôl y darparwr a maes, ar gael yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/720188/legal-aid-statistics-civil-provider-area-data-to-mar-2018.ods

Ar y sail yma, roedd gwariant Cymorth cyfreithiol yng Nghymru yn £76.9 miliwn yn 2017-18, fel yr amlinellir yn nhabl 5.1. Cymorth cyfreithiol sifil oedd yn gyfrifol am y gyfran uchaf o'r gwariant hwn (£43 miliwn, neu 56%), yn whanol i Loegr, lle'r oedd cymorth troseddol yn uwch.

Tabl 5.1: Gwariant ar Gymorth Cyfreithiol yng Nghymru fesul cynllun, 2017-18

Categori	Cymorth Cyfreithiol Sifil (£m)	Categori	Cymorth Cyfreithiol Troseddol (£m)
Cynrychiolaeth Sifil	36.3	Cynllun Ffi Graddedig Eiriolwyr	6.2
Gwrthwynebydd Cynrychiolydd Sifil	2.6	Troseddu Is	14.8
Cynlluniau Toll Llys Meddiant Tai	0.1	CYnllun ffi Graddedig Ymgyfreithwyr	12.8
Help Cyfreithiol	3.7		
Cyflafareddu	0.3		
Cyfanswm	43.0	Cyfanswm	33.8

Ffynhonnell: Gweinyddiaeth Cyfiawnder (2018) Darparwr Ystadegau Cymorth cyfreithiol Lloegr a Chymru a data ardal hyd Mawrth 2018


Mae'r categori gwariant Cynrychiolaeth Sifil (£36.3 miliwn) yn cyfeirio at gynrychiolaeth gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr ar gyfer achosion sifil. Bydd bron i 90% o'r gwariant hwn yng Nghymru yn perthyn i'r Ddeddf Plant arbennig, Deddf Plant cyfraith breifat ac achosion Deddf Plant cyfraith gyhoeddus eraill (gweler adran 5.2.1 isod). Yn gynnwysedig yn y categori hwn hefyd mae meysydd gwariant llai eraill fel niwed personol (£1.3 miliwn), tai (£0.7 miliwn) a thrais domestig (£0.4 miliwn). Mae'r categori help cyfreithiol (£3.7 miliwn) yn cynnwys cyngor a chymorth ynglŷn â phroblemau gyfreithiol, ond nad yw'n cynnwys cynrychiolaeth neu eiriolaeth mewn achosion. Cafwyd y gwariant mwyaf yn y categori hwn ym meysydd iechyd meddwl (£1.5 miliwn) a mewnfudo & lloches (£1.2 miliwn) yn 2017-18.

Yng Nghymru, mae'r gwariant ar gymorth cyfreithiol troseddol y pen yn 74% o'r hyn ydyw yn Lloegr (fel yr amlygwyd gan dystiolaeth Cylchdaith Cymru a Chaer i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru). Ceir y gwariant mwyaf ar gategori 'Trosedd is', sydd yn cyfeirio at waith a wneir gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol mewn gorsafoddedd heddlu a llysoedd ynadon mewn perthynas ag unigolion sydd yn cael eu cyhuddo o droseddau. Roedd bron i hanner (£7 miliwn) o'r gwariant hwn yng Nghymru yn 2017-18 ar fynychu gorsafoddedd heddlu. Mae Cynllun Ffi Raddedig Ymgyfreithwyr yn gymwys ar gyfer cyfreithwyr sydd yn cynrychioli cleientiaid ar gyfer achosion llys y goron, tra bod Cynllun Ffi Raddedig Eiriolwyr ar gyfer Bargyfreithwyr sydd yn cynrychioli client. Er bod gwario ar y

categori 'Trosedd Is' fesul y pen ychydig yn uwch yng Nghymru nac yn Lloegr, mae gwario fesul y pen ar y ddau gategori arall yn sylweddol is yng Nghymru.

Yr ail ffordd o fesur cymorth cyfreithiol yw drwy'r gwariant cyfredol o fewn Terfynau Gwariant Adrannol blynyddol, sydd yn anelu at fesur gwerth yr holl waith a wneir ymhob cyfnod. Er ei fod yn well ffordd o fesur gwerth y gwaith a wneir o fewn cyfnod na'r mesur achos caeedig, does dim odd o'i eitemeiddio i lefel mor fanwl. Caiff data CRA Trysorlys Ei Mawrhydi ei fesur ar y sail yma, ac roedd y gwariant a gofnodwyd ar gyfer Cymru yn 2017-18 yn £78.2 miliwn, o gymharu â £76.9 miliwn ar y mesur achos caeedig.

Ffigur 5.6: Gwir newid mewn gwariant Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (2010-11 = 100)



Ffynhonell: Trsorlys EM (2018) Dadansoddiad Gwladol a Rhanbarthol

Ochr yn ochr â dyraniad costau cronfa ganolog yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (sydd yn dod i 3% o'r cyfanswm), mae data CRA yn dangos bod gwariant cymorth cyfreithiol yng Nghymru wedi gostwng gan tua 38% mewn gwir dermau ers 2010-11, gan gyfateb i dueddiadau yn Lloegr. Fel y gwelir yn ffigur 5.6, mae data cymharol ar gyfer gwariant gan Fwrdd Cymorth Cyfreithiol yr Alban yn dangos bod gwariant yn yr Alban hefyd wedi disgyn mewn gwir dermau ers 2010-11 (gan fwy na chwarter), ond nod i'r un graddau ag yng Nghymru a Lloegr.

Mae ystadegau sydd yn seiliedig ar y mesur achos caeedig yn dangos bod y nifer o swyddfeydd sydd yn darparu a chwblhau gwaith cymorth cyfreithiol wedi gostwng yn sylweddol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'r nifer o swyddfeydd darparu sydd yn cwblhau gwaith cymorth sifil yng Nghymru wedi gostwng o 323 yn 2011-12 i 219 yn 2017-18, tra bo'r ffigur cyfwerth ar gyfer gwaith

cymorth cyfreithiol troseddol wedi gostwng o 364 i 299 yn ystod yr un cyfnod. Mae'r nifer o swyddfeydd darparu cymorth cyfreithiol dielw wedi disgyn gan bron i hanner, o 56 i 29, sydd yn bennaf yn adlewyrchu'r dirywiad mewn cymorth cyfreithiol a gaiff ei ddarparu gan swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth ar draws Cymru.


Anodd yw casglu darlun manwl gywir o ddarpariaeth gwasanaethau cymorth cyfreithiol ar hyd Cymru oherwydd bod yr ystadegau cymorth cyfreithiol a gyflwynir yn seiliedig ar leoliad swyddfa'r darparwr yn hytrach na lleoliad y cleient- gall darparwyr wasanaethu cleientiaid tu allan i'w hardal ddaearyddol. Fodd bynnag, ymddengys bod swyddfeydd darparu cymorth cyfreithiol troseddol wedi eu crynhoi'n uchel yng Nghymru gyda 123 (41%) wedi eu lleoli yng Nghaerdydd a 45 (15%) wedi eu lleoli yn Abertawe. Yn y cyfamser, roedd gan Flaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen dri darparwr yr un yn unig yn eu hardal awdurdod lleol.

5.2.1 Achosion Deddf Plant

Gydag achosion Deddf Plant gwelir y gyfran fwyaf o wariant cymorth cyfreithiol yng Nghymru. Yn Ffigur 5.2, dangosir maint y cymorth cyfreithiol a roddwyd ar gyfer achosion Deddf Plant o 2011-12 i 2017-18 (ar sail achos caeedig). Cyrhaeddodd y gwariant hwn frig o £51.8 miliwn yn 2013-14 (£55.2 miliwn ym mhrisoedd 2017-18), ond disgynnodd yn serth yn y blynyddoedd dilynol. Cafwyd peth adferiad mewn gwariant i £32.5 miliwn yn 2017-18, sef tua 7% o gyfanswm Cymru a Lloegr. O 2011-12 i 2017-18, roedd gwariant fesul y pen mewn perthynas â'r Ddeddf Plant yng Nghymru 32% yn uwch nac yn Lloegr, er i'r bwlch leihau yn ystod y cyfnod hwn gan adlewyrchu cwmp mwy serth yng Nghymru.


Mae'r lefel uwch o wariant cymorth cyfreithiol ar achosion Deddf Plant yng Nghymru yn cyfateb i un o'r meysydd mwyaf o bwysau galw cynyddol ar gyllidebau awdurdodau lleol yng Nghymru. Cyfanswm y gwariant gan awdurdodau lleol ar blant mewn gofal oedd £284.0 miliwn yn 2017-18 (Ifan a Siôn 2019). Mae'r ffigur hwn wedi codi gan fwy na thrydydd mewn gwir dermau ers 2009-10. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd y nifer o blant mewn gofal yng Nghymru o 4,695 ym mis Mawrth 2009 i 6,405 erbyn Mis Mawrth 2018, sef cynnydd o 36.4% mewn naw mlynedd. Mae'r gyfradd o blant mewn gofal nawr yn 102 i bob 10,000 o'r boblogaeth, sydd yn sylweddol uwch na'r gyfradd yn Lloegr (64 i bob 10,000).

Figur 5.7: Gwariant cymorth cyfreithiol mewn perthynas ag achosion Deddf Plant yng Nghymru, 2011-12 i 2017-18 (prisoedd 2017-18, £m)




Ffynhonell: Gweinyddiaeth Cyfiawnder (2018) Ystadegau darparwyr sifill cymorth cyfreithiol Cymru a Lloegr a data ardal hyd Mawrth 2018

Figur 5.8: Cyfanswm gwariant ar blant mewn gofal a'r nifer o blant sydd mewn gofal ar draws Cymru, 2009-10 i 2017-18 (Prisoedd 2018-19)



Ffynhonell: Ifan a Sion (2018)

Ffigur 5.9: Nifer o blant mewn gofal ar draws Cymru fesul statws cyfreithiol, 2009-10 i 2017-18 (Prisoedd 2018-19)



Ffynhonnell: Statswales (2018) Plant Sy'n Derbyngofal ar ôl Mawrth 31 fesul awdurdod lleol a statws cyfreithiol

Ceir enghraifft ddiddorol ac eglurhaol gan y gwariant yma o sut mae'r system gyfiawnder yn rhyngweithi gyda gwariant wedi'i ddatganoli a gwariant cyhoeddus lleol yng Nghymru, gan fod y mwyafrif o blant sy'n derbyn gofal wedi eu rhoi o dan Gorchymyn Gofal a ddyfarnwyd drwy'r llysoedd (Elliot 2017, tud.133).

Mae *Cyfrifiad Plant Sy'n Derbyngofal Llywodraeth Cymru* yn cynnig data ar statws cyfreithiol plant sy'n derbyn gofal fesul blwyddyn– fel a welir yn ffigur 5.9.¹¹ Mae'r cynnydd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal yn ystod y blynyddoedd diweddaraf wedi deillo o gynnydd yn y nifer o blant sydd yn 'derbyn gofal' yn dilyn Gorchymynion Gofal – sef gorchymynion llys sydd yn rhoi plentyn o dan ofal yr awdurdod lleol (yn barhaol neu dros dro). Tyfodd y nifer hwn 39% o 2013-14 i 2017-18, sef cyfnod lle y disgynnodd gwariant cymorth cyfreithiol mewn perthynas ag achosion Deddf Plant gan 41% mewn gwir dermau. Mae achosion Adran 20 yn cyferio at adeg pan fydd rhiant neu rieni plentyn yn gofyn am neu'n cytuo i'w plentyn 'dderbyn gofal' – mae'r nifer hyn wedi syrthio yn ystod y blynyddoedd diweddaraf.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Cafcass Cymru, sydd yn ymwneud ag achosion cyfraith teulu pan fydd y llys yn galw arnyn nhw, yn gweithio gyda chyfreithwyr ac yn eu gorchymyn i

¹¹ Ar gael yma: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-legalstatus>

weithredu ar ran plant.¹² Mae dadansoddiad o ddogfenau cyllid Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod ariannu ar gyfer Cafcass Cymru wedi aros yn fflat yn nhermau arian parod ers 2011-12, ac yn £10.3 miliwn yn 2018-19. Gan ddyfynnu galw cynyddol a sylweddol am ei gwasanaethau, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r ariannu ar gyfer Cafcass i £11.3 miliwn yn ei Chyllideb Terfynol am 2019-20. Yn adroddiad blynyddol diweddaraf Cafcass Cymru ar gyfer 2017-18, nodwyd bod ceisiadau am Gyfraith Cyhoeddus wedi cynyddu gan 21% ers 2015-16, gydag Adran 31 (gofal) Ceisiadau gan awdurdodau lleol yn brif yrrwr tu ôl i hyn (yn cael eu gwneud pan fydd gyda nhw bryderon sylweddol ynglŷn â diogelwch neu les plentyn).¹³

5.2.2 Gwasanaethau Trydydd Sector

Yn ogystal â gwasanaethau cymorth cyfreithiol, gall unigolion gael mynediad at gyngor ar faterion cyfreithiol gan amrywiaeth o fudiadau trydydd sector. Gall ffrydiau ariannu'r mudiadau hyn fod yn amrywiol, ac yn aml byddant yn denu cefnogaeth gan lywodraeth y DG, Cymru a lleol.

Yn ôl dadansoddiad o ddata Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2018) ar fudiadau sector gwirfoddol Cymreig gan Kapitsinis (2018), cafwyd cynnydd yn nifer ac incwm y mudiadau hynny oedd yn cynnig gweithgarwch Cyngor ac Eiriolaeth rhwng 2010-11 a 2016-17.¹⁴ Mae Tabl 5.2 yn cynnig rhestr fanwl o incwm y mudiadau hyn. Cafwyd cynnydd yn yr incwm i fudiadau sector gwirfoddol sydd yn cynnig Cyngor ac Eiriolaeth o £5.7 miliwn yn 2009-10 i £9.5 miliwn yn 2016-17. Dyma oedd y twf uchaf mewn ariannu allan o holl feysydd gweithgarwch mudiadau sector gwirfoddol a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth, a dyma oedd yr unig grŵp wnaeth arddangos cynnydd mewn ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at ariannu darpariaeth cyngor yn dilyn ei Adolygiad Gwasanaethau Cyngor yn 2013, a gafodd ei gomisiynu mewn ymateb i newidiadau i gymorth cyfreithiol. Dangosodd gyfrifon blynyddol Cyngor ar Bopeth bod ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer ei wasanaethau cyngor yn £1.6 miliwn yn 2017-18, ochr yn ochr â grantiau eraill.

Mae'r data a geir yn nhabl 5.2 yn cynnig arwydd o'r tueddiadau gwaelodol yn y maes. Fodd bynnag, bydd yr incwm cyffredinol a gaiff ei adrodd yn debygol o dangynrychioli cyfanswm y nawdd sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyngori yng Nghymru yn sylweddol. Mae hyn o ganlyniad i faterion yn ymwneud â chofnodi data ac anallu dadansoddiad o'r fath i eitemeiddio'r gydran sydd yn ymwneud â

¹² <https://gov.wales/cafcass-cymru/what-we-do>

¹³ Ar gael yma: <https://gov.wales/cafcass-cymru-annual-report-2017-2018>

¹⁴ Mae gweithgareddau Cyngor ac Eiriolaeth yn cynrychioli dau wasanaeth ar wahân a ddarparir gan sefydliadau trydydd sector, gyda darparwyr cyngor yn fwy tebygol o fod wedi cydymffurfio â safonau cyffredin ac yn fwy trefnus na darparwyr eiriolaeth. Cânt eu trin gyda'i gilydd yn yr adran hon oherwydd argaeledd data.

chyngor fel rhan o wariant sefydliadau o dan categorïau gweithgarwch eraill. Yn dilyn y diffyg data sydd ar gael, nid yw'r gwariant hwn wedi cael ei gynnwys yn y prif amcanbrisoedd a gyflwynir yn nhabl 5.1.

Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer holl weithgarwch y Drydedd Sector yng Nghymru oedd £251 miliwn yn 2016-17: Mae'r cyfanswm hyn wedi gostwng yn sylweddol ers 2010-11. Bydd y drydedd sector hefyd yn derbyn llawer o nawdd gan Lywodraeth leol yng Nghymru, gyda chyfanswm o £247 miliwn yn 2014-15 yn ôl data WCVA (2018).

Tabl 5.2: Incwm Sefydliadau Sector Gwirfoddol sydd yn cynnig gwasanaethau Cyngor ac Eiriolaeth yng Nghymru

Ffrwd Ariannu	Incwm 2009-10, £m	Incwm 2016-17, £m	Twf (%)
Llywodraeth Cymru	1.35	2.66	96
Llywodraeth Leol	0.97	1.15	18
Cyfraniadau gan y cyhoedd	0.03	0.02	-21
Incwm gan fudiadau gwirfoddol eraill	0.98	3.4	246
Incwm masnach	2.22	2.24	1
Lotri Genedlaethol	0.1	0.02	-78
Ariannu gan yr UE	0	0	-
Buddsoddiad	0	0	-
Arall-amrywiol	0.05	0.02	-60
Yn Gyffredinol	5.7	9.51	67

Ffynhonell: Kapitsinis (2018)

Mae Llywodraeth y DG hefyd yn cynnig grantiau i'r drydedd sector, gyda pheth o'r arian yn mynd i wasanaethau a ddarperir yng Nghymru. Er enghraifft, rhoddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder £11.6 miliwn yn 2017-18 (fel rhan o grant aml-flwyddyn) er mwyn i Cyngor ar Bopeth ddarparu ei wasanaeth Tystion yn y llys.¹⁵

5.3 Gwasanaeth Erlyn y Goron

Prif asiantaeth erlyn cyhoeddus ar gyfer cynnal erlyniadau troseddol yw Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG). Caiff erlyniadau mewn achosion troseddol eu hariannu'n uniongyrchol ac yn gyhoeddus.

Gwelir cyfanswm gwariant o £579 miliwn yn 2017-18 yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol GEG ar gyfer 2017-18.¹⁶ Fe wnaeth cyfanswm incwm o £63 miliwn (sef costau yn bennaf a ddyfarnwyd i GEG a'r

¹⁵ Does dim rhestr ddaeayddol fanwl o'r gwariant hwn ar gael.

¹⁶ Ar gael yn: <https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/CPS-Annual-Report-2017-18.pdf>

Cynllun Ysgogi Adferiad Asedau) olygu costau gweithredu net o £516 miliwn. Gwelir new dadansoddiad o gyfrifon blynyddol blaenorol bod gwariant cyhoeddus wedi gostwng gan tua 24% mewn gwir dermau ers 2010-11.

Mae'r cyfrifon blynyddol hefyd yn dangos cyfanswm gwariant gweithredol ar gyfer ei gydran gweithredu Cymru-Wales o £19.8 miliwn yn 2017-18. Mewn rhestr fwy manwl o'r gwariant hwn a gyflwynwyd i'r Comisiwn, adroddwyd bod costau staff y GEG ar gyfer Cymru yn £12.5 miliwn, tra bod costau erlyn yn £6.2 miliwn (gyda ffioedd eiriolaeth yn ffurfio rhan fwyaf hwn). Yn ychwanegol i'r gwariant gweithredu hwn, gwariwyd dros £1 miliwn ar gostau ystâd a dalwyd yn ganolog.

Yn y data a gyflwynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer y CRA 2018, cafodd gwariant annaearyddol ar gyfer y pencadlys a gwaith achos ei gyfraddio, gan ddod â chyfanswm o wariant y GEG yng Nghymru y gellir ei adnabod i £23.9 miliwn. Wrth edrych ar ffigurau gwariant blynyddoedd blaenorol. Gwelir gostyngiad mawr mewn gwariant ar Gymru o 2012-13 (£34.4 miliwn) i 2014-15 (£17.1 miliwn), sydd yn adlewyrchu newid yn y fethodoleg a ddefnyddir i ddosrannu gwariant ar sail ranbarthol.

Yn ôl ffigurau a gafodd eu rhoi i'r Comisiwn (nad sydd yn cynnwys rhai costau corfforaethol canolog na chafodd eu priodoli i Gymru) gwelir gwariant yn gostwng gan 19% mewn gwir dermau o 2012-13 hyd at 2018-19. Yn ystod y cyfnod yma, fe wnaeth Staff mewn Swydd (Cyfwerth â Llawn Amser ostwng gan chwarter hefyd.

5.4 Gwariant arall gan Lywodraeth y DG ar gyfiawnder yng Nghymru

Gwneir maes arall o wariant yng Nghymru gan Yr Awdurdod Digolledi am Anafiadau Troseddol (CICA), sef asiantaeth weithredol a ariannir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder i weinyddu cynllun iawndal am anafiadau a achosir i ddiodefwr troseddau ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru. Cyfanswm gwariant CICA yng Nghymru ar gyfer 2017-18 oedd £7 miliwn, sef tua 5% o gyfanswm y gwariant (o ddata CRA yn seiliedig ar y cyfanswm a ddyfarnwyd ymhob ardal ranbarthol). Cyrhaeddwyd uchafswm gwariant o £26 miliwn yn 2011-12.

Mae'r categori 'Gwariant arall y Weinyddiaeth Gyfiawnder' a gaiff ei gynnwys yn Ffigur 5.1 (ar dudalen 21) yn bennaf gyfrifol am wariant gweithredoedd canolog y Weinyddiaeth Gyfiawnder - yn dod i £62 miliwn yn 2017-18. Caiff y gwariant hwn ei ddosrannu i Gymru yn seiliedig ar gyfran poblogaeth gan na fyddai gwneud hyn ar sail ddaearyddol yn bosibl. Grŵp Gweithredu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder oedd y gydran fwyaf (£44 miliwn yn 2017-18), sydd yn gyfrifol am nifer o swyddogaethau corfforaethol a chymryd trosolwg o waith yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, Swyddog y Gwarcheidwad Cyhoeddus

a'r CICA. Mae gweithredoedd **ariannol a masnachol** (£7 miliwn) yn gyfrifol am arian, dadansoddiad, cymorth masnachol a darparu project, tra bod y **Grŵp Polisi Cyfiawnder a Llysoedd** (£4 miliwn) yn gyfrifol am ad-drefniad traws-system o'r llysoedd a thribiwnlysoedd, gan ddatblygu polisi ar gyfiawnder sifil, teulu a throseddol, a pherthynas gyda'r farnwriaeth. Mae'r **Grŵp Diwygio Troseddwyr a Chomisiynu** (£4 miliwn) yn gyfrifol am reoli rhaglen a newid swyddogaethau. Mae £3m o wariant hefyd wedi ei briodoli i Gymru gan **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**. Wedi ei gynnwys hefyd mae gwariant gan rai cyrff llai, comisiynau a swyddfeydd, gan gynnwys **Swyddfa'r Cwynion Cyfreithiol** (£0.64 miliwn), y **Comisiwn dros Adolygu Achosion Troseddol** (£0.27 miliwn), a'r **Comisiwn Penodiadau Barnwrol** (£0.25 miliwn).

Gan nad yw'n bosib neilltuo gwariant ar y Goruchaf Lys yn ddaearyddol ar draws y DG, dywedir bod y gwariant yma yn 'wariant na ellir ei adnabod' yn nata'r CRA - byddai cyfran Cymru yn seiliedig ar boblogaeth yn dod i tua £0.2 miliwn yn 2017-18).

5.5 Gwariant Llysoedd a Thribiwnlysoedd Cymreig a Lleol

Ceir nifer o dribiwnlysoedd sydd yn ymwneud â swyddogaethau datganoledig lle mae'r cyfrifoldeb dros eu hariannu yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru.

Uned Tribiwnlysoedd Cymru sydd yn goruchwylio rhai o'r tribiwnlysoedd datganoledig, fel y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl i Gymru (gwariant o £2.5 miliwn yn 2016-17),¹⁷ Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (£125,000),¹⁸ Tribiwnlys Eiddo Preswyl (£200,000)¹⁹ a Tribiwnlys yr Iaith Gymraeg (£19,500).²⁰

Yn ôl Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2017-18, roedd gwariant y gyllideb ar gyfer 'Tribiwnlysoedd' ychydig yn fwy na £3 miliwn. Cynyddodd y gyllideb hwn o tua £2.3 miliwn yn 2012-13, er ei fod wedi codi a gostwng yn y cyfamser.

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yng Nghymru yw rhai tribiwnlysoedd, fel Paneli Apeliadau Derbyn i Ysgolion a Phaneli Apeliadau Gwahardd o Ysgolion. Fodd bynnag, gwelir yn Ffigur 5.1 mai ar gyfer gwasanethau'r Crwner a rhai eraill y llys ceir prif faes gwariant llywodraeth leol. Ceir saith awdurdodaeth crwner yng Nghymru, sydd yn cael eu hadnoddau a'u hariannu gan awdurdodau lleol.

¹⁷ <http://mentalhealthreviewtribunal.gov.wales/mhrtw-about/annual-reports/?lang=en>

¹⁸ <http://sentw.gov.wales/about/annual-reports-sentw/?lang=en>

¹⁹ <http://rpt.gov.wales/about/rpt-annual-reports/?lang=en>

²⁰ <http://welshlanguagetribeunal.gov.wales/wlt-about/wlt-annual-reports/?lang=cy>

Yn ôl y data diweddara ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, cafwyd gwariant net o £5.4 miliwn yn 2017-18 ar wasanaethau 'Crwner' a llysoedd eraill, i fyny o £4.5 miliwn yn 2010-11.

6

Gwariant ar Garchardai a Phrawf

Asiantaeth gweithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw **Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (GCPHEM)**, yn gyfrifol am wasanaethau cywiro yng Nghymru a Lloegr. Ei wariant net ar gyfer y flwyddyn 2017-18 oedd £4.4 biliwn.

Sefydlwyd cyfarwyddiaeth **Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru** yn 2014-15 er mwyn cyfeirio at y gwahaniaethau arbennig ac amlwg oedd yn codi o ganlyniad i ddatganoli yng Nghymru; mae gan y corff gyfrifoldeb nawr am reoli troseddwy sydd yn y ddalfa yng Nghymru ac a wasanaethau prawf.²¹ Yn 2017-18, adroddwyd mai gwariant gweithredol y gyfarwyddiaeth oedd £192.6 miliwn gydag incwm o ychydig dros £9 miliwn yn 2017-18,²² gan olygu gwariant net o £183 miliwn yn 2017-18. Mae gwariant net wedi cynyddu o £130 miliwn yn 2014-15, gan adlewyrchu'r costau sydd yn gysylltiedig â chael Carchar Ei Mawrhydi Berwyn yn weithredol.

Mae cyfarwyddiaethau eraill sydd yn dod o dan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf sydd yn darparu gwasanaethau yng Nghymru, ond nid oes rhestr o'u gwariant ar gael. Ymhlith y cyfarwyddiadau yma mae:

- Y Gyfarwyddiaeth Cytundebau Gwarchod sydd yn rheoli ystod o gytundebau ar draws y system a darparwyr trydydd sector yn cyflenwi gwasanaethau troseddol, gan gynnwys carchardai a reolir yn breifat, gwasanaethau hebrwng carcharorion a gwarchodaeth a'r cytundebau rheoli cyfleusterau carchardai (gyda gwariant net o £819 miliwn ar draws Cymru a Lloegr yn 2017-18). Fodd bynnag, yng Nghymru mae peth o hwn yn gyfrifoldeb y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, gan gynnwys rheolaeth cytundeb carchar preifat Parc a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru.
- Mae'r Gwasanaeth Gwarchodaeth Ieuencid yn fraich ar wahân i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ac mae'n gyfrifol am Sefydliadau Troseddwy Ifanc a Chanolfannau Hyfforddiant Diogel ar draws Cymru a Lloegr (£103 miliwn).
- Mae cyfarwyddiaeth Ymyraethau'r Gymuned yn rheoli nifer o ddarparwyr trydydd sector sydd yn cynnig gwasanaethau troseddwy (£369 miliwn), a'r

²¹ 'NOMS in Wales' yn flaenorol.

²² Adroddodd GCPHEM ei bod wedi derbyn £3.7 miliwn o incwm gan Lywodraeth Cymru yn 2017-18.


- Gyfarwyddiaeth Monitro Electronig sydd yn gyfrifol am wasanaeth newydd i fonitro troseddwr (£69 miliwn).

Yn olaf, mae cyfarwyddiaeth Cefnogaeth Weithredol yn cynnwys adnoddau dynol, trawsffurfio ystâd, diogelwch, trefn a gwrthderfysgaeth, Adsefydlu a sicrwydd a chyfarwyddiaethau CEO (£181 miliwn). Ymhlith gwariant arall mae costau lle bydd y gyllideb yn cael ei gadw o fewn y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn hytrach na Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a chostau gorbenion y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae carchardai ar hyd Cymru a Lloegr wedi profi toriadau gwario a staffio ers 2009-10, mae'r tueddiadau hyn wedi denu sylw cynyddol o ystyried dirywiad diogelwch mewn carchardai ers 2013-14.

Cafwyd gostyngiad sylweddol mewn gwariant ar garchardai ar draws Cymru a Lloegr ers 2010-11 er bod poblogaeth carchardai wedi aros yn gyson ar y cyfan (gweler y llinell doredig lwyd yn ffigur 6.1). Gyda'r toriadau hyn i'r gyllideb daeth gostyngiad yn y nifer o staff, gyda nifer staff craidd carchardai ym mis Mawrth 2017 26% yn is na lefelau 2010, er iddyn nhw ddechrau codi eto yn 2017-18 (Andrews et al. 2018).

Ffigur 6.1: Gwir newidiadau mewn gwariant cyffredinol ar adnoddau mewn carchardai a'r newid ym mhoblogaeth carchardai ar draws Cymru a Lloegr (2010-11 = 100)



Ffynhonell: Gweinyddiaeth Cyfiawnder (2018) Costau fesul lle a charcharor fesul carchar

Cyfanswm y gwariant uniongyrchol ar adnoddau a gofnodwyd mewn carchardai yng Nghymru oedd £121 miliwn yn 2017-18. **Gwariant adnoddau cyffredinol yn 2017-18 ar garchardai yng Nghymru, sydd**

yn cynnwys gwariant a wnaed ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol, **oedd £168 miliwn**.²³ Allan o'r ffigur hwn, gwariwyd £97.7 miliwn ar garchardai sector cyhoeddus (CEM Brynbuga /Prescoed, CEM Caerdydd, CEM Abertawe a CEM Berwyn) tra bod £70.6 miliwn wedi ei wario ar y carchar menter cyllid preifat (PFI), CEM Parc. Roedd costau cyffredinol fesul pob carcharor yn y sector gyhoeddus a charchardai PFI yn debyg i'w gilydd yn 2017-18, er bod hyn oherwydd bod y gost fesul bob carcharor yn CEM Berwyn yn sylweddol uwch gan ei fod yn sylweddol o dan ei gynhwysedd y flwyddyn honno.

Yn wahanol i'r darlun yn Lloegr, mae gwariant ar garchardai yng Nghymru wedi cynyddu yn sylweddol ers 2010-11, wrth ochr cynnydd mawr o 42% ym mhoblogaeth carchardai a leolwyd yng Nghymru (llinellau heb eu torri yn ffigur 6.1). Mae'r gwariant fesul carcharor a leolwyd yng Nghymru felly wedi aros yn gyffredinol fflat mewn gwir dermau yn ystod y cyfnod hwn.

Cyfanswm y gwariant ar garchardai a gwasanaethau prawf yng Nghymru fel yr adroddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn nata'r CRA oedd £205 miliwn yn 2017-18; mae'r ffigur hyn yn cynnwys gwariant ychwanegol gan GCPHEM a ddosrannwyd yn bennaf yn ôl poblogaeth carchardai. Mae'r gwariant fesul person ar garchardai a gofnodwyd yn y CRA yn debyg yng Nghymru a Lloegr (tua £65 y pen o'r boblogaeth), sydd ychydig yn is yn yr Alban (£58), ac yn uwch yng Ngogledd Iwerddon (£80).

Yn gynnwysedig yn y ffigur hwn mae gwariant gan y **Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid** dros Gymru a Lloegr, sef corff anadrannol cyhoeddus sydd yn gyfrifol am oruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr ac sydd wedi ei noddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Roedd y gwariant yng Nghymru yn ystod 2017-18 yn £2.8 miliwn, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r nifer o bobl ifanc a gafodd rybudd neu a gollfarnwyd am drosedd fesul rhanbarth daearyddol. Yn yr un modd â Lloegr, mae'r gwariant wedi gostwng yn sylweddol ers 2010-11, tuedd sydd yn adlewyrchu llai o achosion a throsglwyddo achosion ieuenctid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Gwariant Carchardai ar Garcharorion o Gymru

Er bod y ffigurau a amlinellir uchod yn adlewyrchu gwariant ar garcharorion **yng Nghymru**, mesur arall o ddiddordeb fyddai i gysylltu gwariant gyda charcharorion **o Gymru**. Mae Tabl 2 yn rhoi amcangyfrif o wariant uniongyrchol a chyffredinol ar garcharorion o Gymru yn seiliedig ar leoliad sefydliad a chost gyfartalog fesul carcharor yn y sefydliadau hynny ar gyfer 2017-18. Rhoddwyd y data gwaelodol gan Jones (2018) yn seiliedig ar ddata'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dilyn cyfeiriadau'r bobl a ddaeth i mewn i'r ddalfa.

²³ Mae hyn yn cynnwys gorgostau Pencadlys a rhanbarthol, prof gostau cadw a chynnal annedd, trethi a rhent, yn ogystal â dadbrisiad adeiladau ac ad-daliad cyfalaf. Mae peth o'r gwariant hyn felly (dadbrisiad) heb ei gynnwys felly yng nghyfanswm y CRA a adroddir uchod.

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu mai cyfanswm gwariant uniongyrchol ar y 4,781 carcharor o Gymru (poblogaeth gyfartalog ar hyd y flwyddyn ariannol) oedd £138 miliwn yn 2017-18, tra bo'r gwariant cyffredinol yn £189 miliwn. Gwariwyd bron i 40% o'r gwariant amcangyfrifedig hyn ar garcharorion Cymreig mewn carchardai tu allan i Gymru.

Fe wnaeth y ffigurau hyn ar wariant amcangyfrifedig ar garcharorion o Gymru fynd yn fwy na'r gwariant ar garcharorion a leolwyd yng Nghymru gan tua £21 miliwn yn 2017-18 (£189 miliwn o gymharu â £168 miliwn a gyfeiriwyd ato ynghynt. Fodd bynnag, wrth i boblogaeth CEM Berwyn gynyddu yn y blynyddoedd dilynol, mae'n bosib bydd y sefyllfa yma'n cael ei wyrdroi yn y blynyddoedd i ddod, oherwydd bydd gwariant ar garcharorion **yng** Nghymru yn debygol o ragori ar wariant amcangyfrifedig ar garcharorion o Gymru.

Tabl 6.1: Gwariant amcangyfrifedig ar garcharorion o Gymru, 2017-18

Enw Sefydliad	Nifer cyfartalog o garcharorion Cymreig	Cyfran Gymreig o gyfartaledd y boblogaeth	Cyfran Gymreig o Wariant Adnodd Uniongyrchol	Cyfran Gymreig o Wariant Adnodd Cyffredinol
Parc	1456	84%	£51.5 m	£59.6 m
Caerdydd	580	79%	£12.0 m	£20.1 m
Altcourse	352	31%	£16.4 m	£17.1 m
Abertawe	391	92%	£10.0 m	£15.8 m
Stoke Heath	111	14%	£2.0 m	£3.6 m
Brynbuga	201	38%	£3.7 m	£6.2 m
Eastwood Park	147	37%	£3.9 m	£6.2 m
Prescoed	157	30%	£2.9 m	£4.8 m
Long Lartin	47	9%	£2.1 m	£3.1 m
Rye Hill	41	6%	£1.5 m	£1.6 m
Berwyn	159	24%	£5.9 m	£9.3 m
Carchardai eraill	1299	2%	£26.3 m	£41.7 m
Cyfanswm	4781	5%	£138.3 m	£189.1 m
o:				
Garchardai Cymreig	2943		£86.0 m	£115.9 m
Garchardai Saesneg	1838		£52.3 m	£73.3 m
Cost carcharorion sydd heb fod o Gymru			Gwariant Adnodd Uniongyrchol	Gwariant Adnodd Cyffredinol
Mewn carchardai Cymreig			£35.3 m	£52.5 m

Ffynhonnell: Gweinyddiaeth Cyfiawnder (2018) Costau fesul lle a charcharor fesul sefydliad carchar a chyfrifon yr awdurdur

Rhyngweithiad rhwng cyllidebau llywodraethau datganoledig a lleol

Ceir nifer o ffyrdd eraill lle bydd cyllidebau Llywodraeth Gymreig ddatganoledig ac awdurdodau lleol yn rhyngweithio gyda systemau carchardai a phrawf. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd ac addysg mewn carchardai sector cyhoeddus.

Yn achos gofal iechyd, mae Llywodraeth Cymru yn dosrannu ariannu i'r Byrddau Iechyd perthnasol ar gyfer costau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd. Trosglwyddwyd yr ariannu o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2003-04 i'r grant bloc er mwyn talu am gostau gofal iechyd carcharorion Llywodraeth Cymru. Gwnaed rhai newidiadau i'r swm cychwynnol o £2.2 miliwn, ond bu'r trosglwyddiad hyn ers hynny yn rhan o'r grant bloc cyffredinol sydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn yn ôl newidiadau cyffredinol mewn gwariant fesul y pen yn Lloegr ar wasanaethau a ddatganolwyd i Gymru. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb hefyd dros wasanaethau addysg mewn carchardai sector cyhoeddus, ac fe roddodd gyfanswm o £3.7 miliwn i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar gyfer gwasanaethau addysg a gweithgareddau project penodol sydd yn berthnasol i addysg carchar, yn 2017-18. Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb hefyd i gynnig gwasanaethau cymdeithasol i garcharorion, ac fe ddaw'r arian hwnnw o'r Setliad Llywodraeth Leol.²⁴

Cyfrifoldeb arall sydd gan awdurdodau lleol yw'r Tîmoedd Troseddi Ieuencid, ac a arianir gan Lywodraeth Cymru. Roedd y gwariant crynswth gan awdurdodau lleol ar y gwasanaethau hyn yn 2017-18 yn £25.2 miliwn, gyda £9.6 miliwn yn dod o grant wedi'i neilltuo. Mae'r ariannu hwn wedi cynyddu ers 2010-11.

²⁴ Er enghraifft, gweler: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-44240367>

7

Casgliad

Cafodd ei amlinellu'n fanwl yn yr adroddiad hwn bod gwariant cyhoeddus ar y system gyfiawnder yng Nghymru yn gymysgedd cymhleth o ffynonellau ariannu a gwahanol feysydd gwariant. Yn gyfan, caiff bron i **£1.2 biliwn ei wario ar y system gyfiawnder yng Nghymru bob blwyddyn**, sydd gyfwerth â 3.6% o holl wariant cyhoeddus y gellir ei adnabod ar gyfer Cymru. Ond mae cyfran sydd yn sylweddol uwch o wariant cyhoeddus Cymru yn rhyngweithio â'r system gyfiawnder mewn ffyrdd niferus, gan gynnwys nifer o feysydd gwariant mwyaf Llywodraeth ac awdurdodau lleol Cymru, fel iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, daw mwyafrif yr ariannu ar gyfer y system gyfiawnder o gyllidebau adrannau llywodraeth y DG. Ac wrth i gyllidebau'r adrannau hyn gael eu torri ar ôl 2009-10, mae gwariant ar wasanaethau mewn nifer o feysydd perthnasol wedi gostwng hefyd. Gwelwyd gostyngiad mewn gwir dermau o bron i 23% hefyd mewn gwariant ar draws gwasanaethau'r heddlu, llysoedd barn a thribiwnlysoedd, er bod gwariant wedi cynyddu ychydig bach yn ystod y blynyddoedd diweddaraf. Parhau i fod yn heriol mae'r rhagolygon ar gyfer gwariant tu allan i feysydd gwariant 'wedi'u hamddiffyn' fel y GIG, gan gynnwys y mwyafrif o swyddogaethau cyfiawnder.

Er bod cyfiawnder yn cael ei ystyried i fod yn fater swyddogaeth a gadwyd yn ôl, mae tua £442 miliwn (neu 38%) o'r holl wariant a gaiff ei gynnwys yn y dadansoddiad yn deillio o ariannu a ddatganolwyd neu o lywodraeth leol.²⁵ O dan y drefn bresennol, mae Llywodraeth Cymru wedi llywio taith wahanol ar gyfer y modd y caiff ein system gyfiawnder ei ariannu mewn rhai meysydd. Yn fwyaf nodadwy oedd y rhyddid a gafodd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru i gynyddu praesept treth cyngor ar raddfa gynt nac yn Lloegr, ac i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol. Mae'r dargyfeiriedd polisi wedi cael effaith amlwg ar wariant yr heddlu a chyfrif pennau yng Nghymru yn ystod blynyddoedd diweddar. **O ran ariannu cyfiawnder, cynyddu wnaeth yr elfen ddatganoledig a llywodraeth leol mewn gwir dermau ers 2009-10.** Fel y nodwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, mae yna feysydd eraill o wariant Llywodraeth Cymru a lleol sydd yn berthnasol i'r system gyfiawnder, ond sydd yn dod o dan swyddogaethau eraill, er enghraifft, gwario ar addysg carcharorion, gofal cymdeithasol a Thimoedd Troseddau Ieuenctid. **Yn y cyfamser, mae gwariant ar gyfiawnder yng Nghymru a arianwyd gan gyllidebau adrannau ac asiantaethau llywodraeth y DG wedi disgyn gan drydedd ran ers 2009-10.**

²⁵ Mae'r ffigur hyn yn cynnwys amcangyfrifon o incwm grant penodol gan Lywodraeth Cymru i heddluoedd, yn seiliedig ar ffigurau a roddwyd yng Nghyfrifon Blynyddol pedwar heddlu Cymru.

Ffynonellau

Andrews, E., Atkins, G., Campbell, Tetlow, G., a Lilly, A. (2018) Performance Tracker 2018. London: Institute for Government. Ar gael yn:
<https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/Performance%20Tracker%202018%20web.pdf>

Elliot, M. (2017) "Looked-after" children in Wales: An analysis of the backgrounds of children entering public care. PhD Thesis, Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: <http://orca.cf.ac.uk/110473/>

HM Courts and Tribunals Service (2018) HM Courts & Tribunals Service annual report and accounts 2017 to 2018, HC 1232, Gorffennaf 2018. Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/723066/HMCTS_Annual_Report___Accounts_2017-2018_web.pdf

HM Treasury (2018) Country and Regional Analysis, Tachwedd 2018. Ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/statistics/country-and-regional-analysis-2018>

HM Treasury (2018) Public Expenditure Statistical Analyses 2018, Cm 9648, Gorffennaf 2018. Ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/statistics/public-expenditure-statistical-analyses-2018>

Home Office (2018) Police workforce open data tables. Ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/statistics/police-workforce-open-data-tables>

House of Commons Library (2018) Constituency data: Magistrates' court closures. Ar gael yn:
<https://commonslibrary.parliament.uk/home-affairs/justice/courts/constituency-data-magistrates-court-closures/>

Ifan, G. a Sion, C. (2019) *Cut to the bone? An analysis of Local Government Finances in Wales, 2009-10 to 2017-18, and the outlook to 2023-24*, Chwefror 2019, Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru. Ar gael yn:
https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0010/1448920/local_government_finance_report_Feb19_final.pdf

Jones, R. a Wyn Jones, R. (i ddod) *The Jagged Edge of Justice in Wales*, Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru.

Jones, R. (2018) *Imprisonment in Wales: A Factfile*, Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru. Ar gael yn:
<http://sites.cardiff.ac.uk/wgc/files/2018/06/WGC-Report-Imprisonment-FinalPDF.pdf>

Kapitsinis, N. (2018) *Income and funding of the Welsh voluntary sector in the post-2010 austerity period*. Cardiff: Wales Public Services 2025. Ar gael yn:
<http://www.walespublicservices2025.org.uk/files/2018/08/Income-and-funding-of-the-Welsh-voluntary-sector-in-the-post-2010-austerity-period.pdf>

Lowe, T., Innes, H., Innes, M. a Grinnell, D. (2015) *The work of Welsh Government funded Community Support Officers*. Chwefror 2015. Merthyr Tudful: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:
<https://orca.cf.ac.uk/88880/1/150226-wg-funded-community-support-officers-en.pdf>

Ministry of Justice (2018) *Costs per place and costs per prisoner by individual prison*. Ministry of Justice Information Release. Hydref 2018. Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/750185/costs-per-place-costs-per-prisoner-2017-2018-summary.pdf

National Debate Advisory Group (2015) *Reshaping policing for the public*, Mehefin 2015. Ar gael yn:
<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/reshaping-policing-for-the-public.pdf>



Canolfan
Llywodraethiant Cymru

Wales Governance
Centre

Wales Governance Centre
Cardiff University
21 Park Place
Cardiff CF10 3DQ